

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

## Hawl mynediad

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym ar 1 Ionawr 2005. Mae'n effeithio ar bob awdurdod cyhoeddus ac yn rhoi hawl i chi (oni bai y ceir eithriad):

- i gael gwybod os cedwir gwybodaeth
- i dderbyn yr wybodaeth honno.

Mae'r term 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys y rhan fwyaf o sefydliadau ac adrannau llywodraeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (mae gan yr Alban eu Deddf eu hunain), ac mae hefyd yn ein cynnwys ni, y rheolydd pensiynau seiliedig ar waith yn y Deyrnas Unedig.

Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Ddeddf (ynghyd â Deddf Diogelu Data 1998). Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni a phob awdurdod cyhoeddus arall:

- fabwysiadu a chynnal 'cynllun cyhoeddi'
- cadarnhau neu wadu (pan ofynnir i wneud) a gedwir gwybodaeth neu beidio a
- darparu'r wybodaeth honno (neu esbonio pam na fydd yn cael ei darparu) o fewn 20 niwrnod gwaith.

Bydd y rhan fwyaf o geisiadau am wybodaeth yn rhad ac am ddim, er y gallem godi tâl ar adegau am bostio neu lungopio.

## Beth yw cynllun cyhoeddi?

Prif ddiben cynllun cyhoeddi yw darparu gwybodaeth yn hwylus heb fod angen gwneud cais ysgrifenedig penodol. Mae ein cynllun cyhoeddi yn esbonio:

- y dosbarthiadau o wybodaeth yr ydym eisoes yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi
- sut fyddwn ni'n cyhoeddi'r wybodaeth (er enghraifft, ar ein gwefan) a
- p'un a fyddwn yn codi tâl am yr wybodaeth neu beidio.

Nid yw'n rhestr gyflawn o'n cyhoeddiadau gan ei bod yn newid a byddwn yn diweddarau cyhoeddiadau'n rheolaidd.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cymeradwyo ein cynllun cyhoeddi, ac mae ar gael o'n gwefan ar [www.thepensionsregulator.gov.uk/foi/publication-scheme](http://www.thepensionsregulator.gov.uk/foi/publication-scheme). Mae hefyd ar gael, yn rhad ac am ddim, ar fformatau eraill – mewn print bras, Braille neu iaith arall.

## Beth am wybodaeth nad yw wedi ei rhestru yn y cynllun cyhoeddi?

Ni fydd yr holl wybodaeth gofnodedig sydd gennym yn cael ei chynnwys yn ein cynllun cyhoeddi. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw ar gael, felly dylech wneud cais ysgrifenedig ar gyfer yr wybodaeth fyddwch ei heisiau. Gallai'r wybodaeth fod wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf – er enghraifft, papur, e-bost neu electronig – a gallai ddod gan unrhyw ffynhonnell, nid dim ond dogfennau a gyhoeddir gennym ni.

### Os gwelwch yn dda noder

Os ydych chi eisiau gwybodaeth amdanoch chi fel unigolyn, yna'r Ddeddf Diogelu Data 1998 sy'n berthnasol, nid y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gellir gweld y Ddeddf Diogelu Data yn [www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents).

## Sut ydw i'n gofyn am wybodaeth?

- Dylech ofyn am wybodaeth yn ysgrifenedig (trwy lythyr, e-bost neu ffacs)
- Bydd angen i chi ddisgrifio'r wybodaeth yr hoffech i'n helpu ei nodi, ei chanfod a'i darparu i chi, ond nid oes rhaid i chi ddweud pam eich bod ei heisiau ac ni fyddwn yn gofyn.

Anfonwch e-bost at [foi@thepensionsregulator.gov.uk](mailto:foi@thepensionsregulator.gov.uk) neu ewch i [www.thepensionsregulator.gov.uk/foi](http://www.thepensionsregulator.gov.uk/foi).

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth gan:

Y Comisiynydd Gwybodaeth  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

0303 123 1113

Anfonwch e-bost at [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk) neu ewch i [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).

## Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'm cais?

- Pan dderbyniwn eich cais, byddwn fel arfer yn ymateb o fewn 20 niwrnod gwaith
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi a oes angen i chi dalu ffi (os oes ffi, rhaid i chi ei thalu cyn i ni anfon yr wybodaeth)
- Gan amlaf, byddwn yn cadarnhau a oes gennym yr wybodaeth ydych ei hangen neu beidio
- Byddwn yn gofyn ar ba fformat yr hoffech i ni ddarparu'r wybodaeth i chi
- Os nad oes gennym yr wybodaeth, byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy sydd â'r wybodaeth (os gwyddom)
- Os byddwn yn penderfynu peidio darparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani, byddwn yn esbonio pam
- Os oes unrhyw oedi, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam ac yn dweud pryd allwch chi ddisgwyl derbyn yr wybodaeth, neu byddwn yn esbonio pam na fyddwn yn ei darparu.

## Allwch chi ymatal rhag datgelu gwybodaeth?

Er bod y Ddeddf yn cefnogi polisiau cenedlaethol i foderneiddio'r llywodraeth ac annog bod yn agored, mae rhai eithriadau. Er enghraifft, efallai y byddwn yn dal gwybodaeth yn ôl ble:

- nad ydym yn cael ei rhyddhau dan ddeddfwriaeth arall neu y byddai'n ddirmyg llys i'w rhyddhau
- ei bod yn gyngor cyfreithiol
- y'i darparwyd yn gyfrinachol neu ei bod wedi ei dosbarthu fel data personol dan y Ddeddf Diogelu Data 1998
- disgwylir y bydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol
- mae eisoes ar gael i chi'n rhesymol o ffynhonnell arall, neu
- byddai'n effeithio ar unrhyw ran o'n hymchwiliadau.

Gallwn:

- wrthod ceisiadau gan unrhyw un sy'n gofyn yn fynych am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg iawn
- beidio rhyddhau gwybodaeth os yw cost ei rhyddhau yn fwy na £450, hyd yn oed os ydych chi'n barod i dalu costau llawn delio â'r cais (er y byddwn yn darparu gwybodaeth hyd at y gost honno), neu
- mewn rhai achosion, ni fyddwn yn dweud a oes gennym yr wybodaeth y gofynnoch amdani.

Weithiau, efallai y byddwn angen mwy nag 20 niwrnod gwaith i ddod o hyd i wybodaeth a phenderfynu a allwn ei rhyddhau. Os yw hyn yn wir, byddwn yn ymateb i chi o fewn 20 niwrnod o dderbyn eich cais i roi gwybod i chi y bydd yn cymryd mwy o amser i ni ddelio â hyn. Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi pryd allwch chi ddisgwyl ymateb yn llawn.

## **Beth os nad wyf yn fodlon â sut y delioch â'm cais?**

Gallwch ofyn am adolygiad mewnol yn ysgrifenedig (llythyr, e-bost neu ffacs) i'n hysgrifennydd corfforaethol yn Y Rheolydd Pensiynau (gweler y dudalen gefn ar gyfer manylion cyswllt).

Byddwn yn ymateb yn llawn i'ch cwyn o fewn 20 niwrnod gwaith neu'n rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl os byddwn yn disgwyl y bydd yn cymryd mwy o amser na hyn.

Os ydych yn dal yn anfodlon â'n hymateb, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler tudalen 3).

## Sut i gysylltu â ni

Napier House  
Trafalgar Place  
Brighton  
BN1 4DW

T 0845 600 0707

F 0870 241 1144

E [customersupport@thepensionsregulator.gov.uk](mailto:customersupport@thepensionsregulator.gov.uk)

[www.thepensionsregulator.gov.uk](http://www.thepensionsregulator.gov.uk)

[www.trusteetoolkit.com](http://www.trusteetoolkit.com)

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

© Y Rheolydd Pensiynau Gorffennaf 2013

Gallwch atgynhyrchu'r testun yn y cyhoeddiad hwn cyn belled â'ch bod yn dyfynnu enw Y Rheolydd Pensiynau a theitl y cyhoeddiad. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn. Gallwn ei chynhyrchu ar ffurf Braille, print bras neu ar dâp sain. Gallwn hefyd ei chynhyrchu mewn ieithoedd eraill.

Y Rheoleiddiwr  
Pensiynau